Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Trimsaran
**Heol Waunyclun**
**Trimsaran**
**Cydweli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 4BE**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Trimsaran

Mae Ysgol Gynradd Trimsaran yng nghanol pentref Trimsaran ger Cydweli, o fewn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Fe agorwyd adeilad newydd ar safle'r hen ysgol ym mis Medi 2017. Mae 166 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 26 oed meithrin rhan-amser. Fe'i rhennir yn wyth dosbarth. Yn 2014, fe drosglwyddodd yr ysgol o gategori A/B o dan bolisi iaith Sir Gaerfyrddin i fod yn ysgol categori A, sef ysgol ble mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu.

Mae tua 32% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol. Mae tua 34% o'r disgyblion yn dod o gartrefi ble mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 27% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Hydref 2010. Mae hefyd yn bennaeth ar ysgol gyfagos sy'n cydweithio o fewn partneriaeth anffurfiol. Fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn gyson uchel ac maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda neu'n well ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog, sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau defnyddiol sy'n llwyddo i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu'r ethos gofalgar a theuluol. Mae partneriaeth ragorol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni gyda'r holl staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol, sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth arbennig y rhieni.

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen Cymraeg a Saesneg disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n sylweddol is na'r disgwyl, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i oddeutu 65% ohonynt. Er hyn, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. O ystyried eu man cychwyn, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn dangos bod y rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg gan ymateb yn gadarnhaol. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau ac ymadroddion, ac yn ymateb iddynt yn bwrpasol gan ynganu a goslefu'n ddealladwy wrth ddynwared. Maent yn defnyddio ymadroddion syml yn ddeallus, er enghraifft wrth gyflwyno a datblygu geirfa ddisgrifiadol yn dilyn ymddangosiad seren ac wrth drafod agweddau o fywyd y Tuduriaid. Mae rhan fwyaf y disgyblion, wrth symud drwy'r ysgol, yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth eu gwaith ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yr un mor hyderus yn Saesneg.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen. Maent yn darllen testunau gydag eglurder gan adeiladu geiriau'n grefftus a darllen yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio eu medrau yn grefftus ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i oes y Tuduriaid. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ychydig o ddisgyblion wedi datblygu'n ddigon cadarn yn y Gymraeg nac yn y Saesneg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cynnydd da o ran eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu ystod o frawddegau a thestunau ac yn defnyddio patrymau cyfarwydd yn fedrus, er enghraifft yn eu gwaith am y wibdaith i weld trychfilod. Maent yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn bwrpasol ac yn sillafu geiriau syml a chyffredin yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu darnau a thestunau estynedig diddorol yn Gymraeg a Saesneg, gan ddatblygu eu syniadau'n dda. Mae ganddynt afael dda ar ffurf a dilyniant wrth iddynt ysgrifennu i amrywiaeth o bwrpasau. Enghraifft dda yw cerddi'r disgyblion am yr afon, a'u teimladau am foddi Cwm Celyn. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gywir ac yn atalnodi gan ddefnyddio collnod a dyfynodau yn gywir, pan fo'u hangen. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion o safon dda.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn iawn. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan ei throsglwyddo'n effeithiol i dabl a graff gan ateb cwestiynau heriol wrth ei dehongli. Ar draws yr ysgol, mae medrau rhif a medrau defnyddio a dehongli data disgyblion yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, gall y rhan fwyaf ddarllen, deall ac ysgrifennu rhifau yn gywir hyd at 100 a'r mwyaf abl at 1000. Maent yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd gwrthrychau mewn centimetrau ac yn adnabod hanner awr wedi, chwarter wedi a chwarter i ar gloc analog a digidol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o briodweddau siapiau dau a thri dimensiwn ac yn cofnodi nifer o ochrau a chorneli yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn hyderus wrth ddefnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi i ddatrys problemau geiriol a phroblemau rhesymu rhif.  Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau.  Yn eu gwaith gwyddonol, maent yn cofnodi'n fedrus mewn tabl ac yn ffurfio graff llinell cywir o faint o eiliadau mae gwahanol bwysau o siwgr yn cymryd i hydoddi.  Mewn hanes, mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio fformiwlâu yn gywir i fesur hyd teyrnasiad brenhinoedd yn ystod oes y Tuduriaid.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio a chymhwyso eu medrau'n effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn annibynnol at wahanol ddibenion.  Yn y cyfnod sylfaen er enghraifft, maent yn defnyddio meddalwedd yn effeithiol i greu graffiau bloc am hoff liwiau'r disgyblion ac yn ychwanegu llun a gwybodaeth am y graff.  Gall llawer ddefnyddio codau QR yn ddeallus i ddatrys problemau rhif.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gyfforddus yn defnyddio Hwb, ac yn deall sut i gyrraedd y gwahanol apiau o fewn eu cyfrineiriau.  Maent yn defnyddio meddalwedd yn fedrus i gyflwyno gwaith yn dilyn ymchwiliadau am afonydd y byd a chyflwyno eu canfyddiadau'n drefnus mewn tablau a graffiau priodol.  Maent wedi paratoi a chyflwyno pwynt pŵer safonol a diddorol i rieni am eu hysgol newydd.  Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg yn yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae ymddygiad bron bob disgybl wrth symud o amgylch yr ysgol yn ystod cyfnodau egwyl, gwasanaethau boreol ac mewn gwersi yn ardderchog.  Maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd,staff ac ymwelwyr.  Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.  Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol o bwy i droi ato mewn achosion o bryder.

Mewn gwersi, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi'n syth i'w gwaith ac yn barod ar gyfer dysgu.  Mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn ymgymryd â thasgau gyda brwdfrydedd.  Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau'n dda gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn siarad am eu gwaith yn hyderus.  Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd.  Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill a disgwyl eu tro yn amyneddgar, er enghraifft wrth fynegi barn am sut y bu i'r Mary Rose suddo.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr brwd a hyderus, gan ymateb yn llwyddiannus i'r hinsawdd ofalgar a chynhaliol sydd yn rhan annatod o'r ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion â dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â sut i fyw a bwyta'n iach.  Mae'r disgyblion yn hybu'r arfer o fwyta'n iach drwy drafod cynnwys pecynnau cinio ei gilydd er mwyn annog dewisiadau iachus.  Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n heini gan gyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi, ac amser egwyl.  Er cyfyngiadau yr ardal chwarae, yn ystod cyfnodau hamdden, maent yn chwarae'n ddiogel â'i gilydd ac yn rhannu offer yn deg.  Mae cyfleoedd i gystadlu mewn gemau gyda thimau o ysgolion cyfagos yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Mae llais y disgybl yn bwysig ac mae'n dylanwadu'n llwyddiannus ar welliannau i'r disgyblion. Mae llawer yn ymgymryd â chyfrifoldebau drwy ystod o gynghorau. Mae'r cyngor ysgol, y cyngor eco, y criw Cymraeg a'r dewiniaid digidol yn gwneud cyfraniad buddiol i fywyd yr ysgol ac yn fodd i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o hawliau'r plentyn. Prynwyd mwy o offer chwarae ar gyfer y buarth gan ymateb i sylw disgybl ar y wal syniadau. Mae'r disgyblion yn hynod falch o'u hysgol ac yn llwyr ymroi i gymryd gofal o'r adeilad newydd a dangos parch ato. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion am elfennau o gynaliadwyedd yr adeilad yn dda. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion a gwerthoedd yr ysgol ac maent yn ystyried anghenion eraill yn dda drwy eu cyfraniad i'r gymdogaeth leol a thu hwnt, gan lanhau sbwriel a chodi arian i gefnogi addysg disgyblion yn Luhimba.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gostwng yn y ddwy flynedd diwethaf. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o rieni yn ymateb yn gadarnhaol i ymdrechion cyson yr ysgol a'r swyddog lles i gynyddu canrannau presenoldeb. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson, a'r drefn o gofnodi absenoldeb yn brydlon er mwyn eu diogelwch.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog, sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o anghenion lles y disgyblion ac maent yn holi disgyblion yn fedrus i ddatblygu eu hyder, eu medrau meddwl a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau ymarferol. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i athrawon yng nghyfnod allweddol 2 or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain,

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar effeithiol iawn i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith yn ystod y gwersi. Fe wneir hyn mewn modd adeiladol sy'n cynnal hyder y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, ac mae sylwadau'r athrawon yn llyfrau'r disgyblion yn nodi llwyddiant ac yn rhoi arweiniad da ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Trwy gynllunio manwl, ar sawl lefel o her, mae'r athrawon yn sicrhau bod tasgau yn addas ar gyfer yr ystod gallu a bod cyfleoedd da yn y cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Fe roddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar ddechrau pob themâu i gyd-gynllunio â'r athrawon ac i gynnig agweddau sydd o ddiddordeb arbennig iddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at eu gwaith. Fe gyfoethogir y profiadau dysgu ymhellach drwy amrywiaeth dda o glybiau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion.

Caiff medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh ffocws clir yn y cynlluniau, ac mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar godi safonau. Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n hynod fanwl i sicrhau bod gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi'u cyfuno'n gelfydd i gynlluniau gwaith y dosbarthiadau. Adlewyrchir hyn yn glir yng ngallu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau'n adeiladol a llwyddiannus wrth symud drwy'r ysgol. Nodwedd arbennig yw'r defnydd o wefannau personol sy'n galluogi disgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 i gydgyfrannu ac i gydwerthuso eu gwaith yn yr ysgol ac i gael mynediad iddo gartref.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus iawn. Mae mynediad di-dor i'r ardaloedd allanol, sydd ar hyn o bryd yn eithaf cyfyng, yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o amrywiaeth diddorol o weithgareddau.

Mae pob aelod o staff yn fodelau iaith da drwy siarad yn glir a thrwy gywiro patrymau iaith mewn modd sensitif. Maent yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol ac fe atgyfnerthir y profiadau yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau ac ymweliadau hanesyddol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth a chynyddu diddordebau'r disgyblion o draddodiadau, diwylliant a hanes yr ardal leol a Chymru gyfan, yn llwyddiannus.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dangos empathi am fywydau pobl eraill drwy, er enghraifft noddi plentyn yn Affrica.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae partneriaeth ragorol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni gyda holl aelodau'r staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth arbennig rhieni. Mae'r arferion llwyddiannus yn cynnwys, er enghraifft, y llyfr cyswllt sydd yn codi ymwybyddiaeth y rhieni o batrymau iaith y gwahanol ddosbarthiadau yn wythnosol, y cylchlythyrau cyson sydd yn rhoi adroddiad manwl ar lwyddiannau'r testunau a astudir ym mhob dosbarth, a'r testunau trafod. Mae'r testunau trafod wythnosol yn rhoi arweiniad clir ar sut gall rieni helpu eu plant i wella eu medrau llafar Cymraeg a Saesneg. Mae'r ysgol yn cynnig nosweithiau hyfforddiant defnyddiol ar y dulliau dysgu a ddefnyddir, sy'n helpu rhieni i ddeall yn well y ffordd mae'r ysgol yn cefnogi a dysgu eu plant.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol ac i drefnu ymyrraeth yn ôl yr angen. Mae ansawdd ymyraethau yn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae cynorthwywyr yn gweithio'n ddiwyd o dan arweiniad yr athrawon neu'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn gweithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu priodol, mae eu targedau unigol yn benodol ac yn adnabod y camau bach sydd angen eu cwblhau i wneud y gwelliant mwyaf perthnasol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n ofalus ac yn dymhorol gyda rhieni.

Mae gan yr ysgol drefniadau defnyddiol sy'n llwyddo i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda, er enghraifft drwy raglen chwarae positif. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu'r ethos gofalgar a theuluol sydd o fewn yr ysgol. Trwy ddarparu sesiynau effeithiol ar addysg bersonol a chymdeithasol mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau o amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch, goddefgarwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae'r disgyblion yn codi arian yn rheolaidd tuag at elusennau fel cymdeithas Luhimba yn Affrica i gefnogi addysg y plant.

Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad da y disgyblion. Mae'r cynllun 'Gwerthoedd y Mis' sy'n annog ystyried gwerthedd fel heddwch, parch a dyfalbarhau, yn cefnogi hyn yn effeithiol iawn. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau ymestynnol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r arddangosfeydd lliwgar o gwmpas yr ysgol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Maent yn cyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn. Mae'r uwch dîm rheoli wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth arwain yr ysgol i fod yn ysgol benodedig Gymraeg a hefyd yn ystod y cyfnod o adeiladu ysgol newydd.

Nodwedd arbennig yw'r modd y mae cyfrifoldebau wedi cael eu dosrannu'n ac mae holl aelodau'r staff yn cydweithio'n ardderchog â'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlir ar gyflawniad a lles disgyblion ac yn sicrhau cymuned gartrefol, ofalus a threfnus.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Mae'r weithdrefn hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sy'n seiliedig ar amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol. Fe roddir sylw teilwng i farn rhieni a disgyblion drwy'r gwahanol bwyllgorau, holiaduron a blwch syniadau. Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r prosesau hunanarfarnu sy'n sicrhau bod y cynllun gweithredu'n offeryn defnyddiol a llwyddiannus. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae'r staff yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiad trylwyr mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella yn flynyddol. Mae'r camau diweddar i wella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion a meithrin hyder yn y disgyblion i gyfathrebu'n rheolaidd yn Gymraeg yn dangos llwyddiant amlwg.

Mae trefniadau trylwyr i reoli perfformiad holl aelodau'r staff yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn addysgu a dysgu, ac yn cynnig cyfleoedd priodol i hybu datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol a phenodol. Mae'r cyfleoedd i arsylwi gwersi ei gilydd a thrafod y canfyddiadau i lunio cyfeiriad pellach i waith yr ysgol wedi sicrhau addysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn meithrin cydweithio effeithiol ag ysgolion eraill tebyg. Mae'r cydgynllunio i ddatblygu a chynnal systemau a dulliau dysgu, fel cydblethu datblygiad y medrau ar draws y cwricwlwm, wedi bod yn llwyddiannus.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau yn glir. Trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth a staff eraill, teithiau dysgu a dadansoddiad o ddata perfformiad, maent â dealltwriaeth gadarn o sut mae disgyblion yn cyflawni o gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Maent yn herio mewn modd cefnogol ac adeiladol er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'r cyfraniadau strategol a phwrpasol hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at welliannau parhaus a llwyddiant yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drylwyr. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'i chynlluniau ar gyfer gwella. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus iawn i godi safonau'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2018